## ATODLEN 4

## Cofrestru amrywogaethau

### Treialon tyfu

**6.**—(1) Caniateir cynnal treialon tyfu—

(a) gan Weinidogion Cymru;

(b) ar ran Gweinidogion Cymru yn unol â'r trefniadau ar gyfer mesurau swyddogol a wneir o dan reoliad 27; neu

(c) gan awdurdod cyfrifol mewn man arall yn y Deyrnas Unedig neu mewn Aelod-wladwriaeth arall.

(2) Rhaid i dreialon tyfu—

(a) cadarnhau a yw amrywogaeth yn wahanol, yn unffurf ac yn sefydlog; a

(b) cael eu cynnal, o ran cynllun y treialon, yr amodau tyfu a nodweddion yr amrywogaeth o dan sylw, yn unol â'r protocol priodol.